**Rhif: 49230**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Codi Ffioedd am Ofal a Chymorth Amhreswyl: cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol

Cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol

Dyddiad cyhoeddi: 19 Chwefror 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Mai 2024

## Trosolwg

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gofal a chymorth cymdeithasol i'w priod ddinasyddion a aseswyd, naill ai yn eu cartref eu hunain, neu mewn lleoliad gofal preswyl, ac mae ganddynt ddisgresiwn i godi ffioedd am y gwasanaethau hynny.

Gan nodi'r pwysau ariannol eithriadol cynyddol ar awdurdodau lleol, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar y cynnig i ddiwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi'i bennu ar £100 ar hyn o bryd.

Byddai ein newidiadau arfaethedig yn sicrhau mai dim ond unigolion sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn cael ei bennu gan y broses arferol, fel rhan o'r prawf modd a gynhelir gan awdurdod lleol unigolyn. Felly, ni fyddai'n ofynnol i bawb sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol o £100 ar hyn o bryd dalu swm uwch.

## Sut i ymateb

Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn 13 Mai 2024, drwy un o’r ffyrdd isod:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb, a'i hanfon drwy e-bost i: dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru
- lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb, a'i hanfon drwy'r post i:

  Y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
  Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
  Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
  Llywodraeth Cymru
  Parc Cathays, Caerdydd
  CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:
dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion manwl ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau – O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Wycliffe House
Water Lane, Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

Rhagair y Gweinidog .......... 5

Pennod 1 – Cyflwyniad .......... **Error! Bookmark not defined.**

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn? .......... 6

Y sefyllfa bresennol .......... 6

Pennod 2 – Y rhesymeg dros newid .......... 7

Pennod 3 – Pa newid sy'n cael ei gynnig gennym? .......... 9

Pennod 4 – Sut mae hyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol, 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru'? .......... 10

Pennod 5 – Asesiadau Effaith .......... 11

Adran 6– Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad .......... 12

## Rhagair y Gweinidog

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu cyfnod heriol ac rydym yn manteisio ar y cyfle i ddiolch i'r sector am ei ymateb i'r pwysau hyn. Mae'r sector hwn yn allweddol i gefnogi pobl sy'n agored i niwed ledled Cymru ac rydym yn ymrwymedig i barhau i gydweithio â'r sector er mwyn cyflawni ein huchelgais o greu system gofal cymdeithasol integredig sy'n cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

Rydym yn ceisio barn ar y cynnig i ddiwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi'i bennu ar £100 ar hyn o bryd. Ni chynigir newid yr asesiadau cymhwystra, sy’n wahanol ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl a phreswyl, fel rhan o’r ymgynghoriad hwn.

Cyflwynwyd yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl gyntaf yn 2011. Pennwyd yr uchafswm ffi wythnosol presennol am ofal amhreswyl, sef £100, ar y swm hwn yn 2020 ac nid yw wedi cael ei addasu ers hynny. Mae Cyfrifiannell Chwyddiant Banc Lloegr, gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) i roi amcangyfrif o werth cymharol nwyddau a gwasanaethau, yn nodi y byddai nwyddau a gwasanaethau oedd yn costio £100 yn 2020 yn costio £121.40 ym mis Hydref 2023. Dylid nodi nad oes unrhyw gapiau ar y cyfraniadau a wna pobl i’w pecynnau gofal a chymorth yn Lloegr, ac y gall costau fod yn filoedd o bunnoedd yr wythnos.

Rydym yn cydnabod y pwysau ariannol ar awdurdodau lleol oherwydd chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth. Setliad drafft Llywodraeth Leol 2024-25, sef £5.688bn - cynnydd o 3.1% - yw'r setliad anoddaf yn hanes datganoli. Fodd bynnag, rydym wedi adeiladu ar y cynnydd yn y setliad Llywodraeth Leol mewn blynyddoedd blaenorol.

Rydym wedi ymrwymo i archwilio cyfleoedd a dulliau, drwy gydweithio ac ymgynghori, i fynd i'r afael â phwysau ar wasanaethau gan sicrhau cydbwysedd rhwng heriau uniongyrchol ac atebion cynaliadwy hirdymor.

Nod y cynnig, felly, yw mynd i'r afael â'r pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu herwydd chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau gofal a chymorth. Byddai'r newid arfaethedig yn sicrhau mai dim ond unigolion sy'n cael gofal a chymorth amhreswyl ac sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny, yn seiliedig ar yr asesiad ariannol a gynhelir gan eu hawdurdod lleol.

Rydym yn croesawu eich barn ar y cynigion hyn ac edrychwn ymlaen at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol, gan ddod o hyd i ateb cyllido cynaliadwy sy'n cefnogi'r sector ac yn ei alluogi i ffynnu.

| | |
|---|---|
| **Eluned Morgan AS** | **Julie Morgan AS** |
| **Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** |

## Pennod 1 – Cyflwyniad

## Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barn ar y cynnig i ddiwygio'r rheoliadau a'r Cod Ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn codi ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar newid arfaethedig sy'n ymwneud â chynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, sydd wedi'i bennu ar £100 yr wythnos ar hyn o bryd.

## Y sefyllfa bresennol

Pan fydd oedolyn yn cael asesiad o anghenion gofal gan ei awdurdod lleol sy'n pennu ei fod yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth **amhreswyl**, bydd yn cael prawf modd. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal yr asesiad ariannol hwn (y prawf modd) er mwyn nodi faint y dylai oedolyn ei gyfrannu tuag at gost darparu'r gwasanaethau gofynnol er mwyn diwallu ei anghenion gofal a aseswyd.

**Beth yw gofal amhreswyl?**

Mae gofal amhreswyl yn cyfeirio at yr amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolyn er mwyn ei helpu i aros yn ei gartref ei hun, ac i gynorthwyo gofalwr.

Gallai gwasanaethau gofal amhreswyl gynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Gofal cartref (h.y. gofalwyr yn y cartref, cynorthwywyr personol)
- Gofal dydd (h.y. i ffwrdd o'r cartref mewn cyfleuster dydd)
- Darparu cymhorthion, cyfarpar neu addasiadau er mwyn helpu unigolion i fyw o ddydd i ddydd a'u cadw'n ddiogel
- Gofal seibiant
- Trafnidiaeth gymunedol

O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, lle mae awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion cymwys, mae angen i'r sawl sy'n cael gofal wneud cyfraniad ariannol. Mae nifer cyfyngedig o eithriadau lle na chaiff awdurdodau lleol godi tâl am wasanaethau gofal a chymorth, ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mharagraff 5.12 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) ("y Cod"). Bydd yr eithriadau hyn yn parhau i fod yn gymwys, ac ni fydd y newid sy'n cael ei gynnig i'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl, sef pwnc yr ymgynghoriad hwn, yn effeithio ar yr amgylchiadau pan na chaiff awdurdodau lleol godi ffioedd am rai mathau o ofal a chymorth.

Mae'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, a gyflwynwyd gyntaf yng Nghymru yn 2011 ac a barhaodd ar ôl i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym, yn gosod terfyn ar y swm y gall awdurdodau lleol ei godi ar unigolyn yr aseswyd bod angen gofal a chymorth cymdeithasol arno gartref neu yn y gymuned.

Pan gafodd ei gyflwyno, cafodd yr uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl ei bennu ar £50 yr wythnos. Cafodd ei gynyddu yn ystod blynyddoedd dilynol yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i weithio tuag at gyflwyno uchafswm ffi o £100 yr wythnos am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl erbyn diwedd tymor y Llywodraeth ddiwethaf (2016-2021). Diben hyn oedd sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi awdurdodau lleol i godi incwm ychwanegol er mwyn helpu i liniaru'r pwysau o ran y costau sy'n gysylltiedig â darparu gofal, a sicrhau ansawdd y gofal hwnnw, tra bod y ffi yn parhau i fod yn deg ac yn fforddiadwy i bobl ei thalu. Cyflawnwyd hyn ym mis Ebrill 2020 a dyma'r polisi o hyd.

Mae'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at y setliad cyllideb mwyaf heriol mewn 25 mlynedd o ddatganoli. Mae Cyfrifiannell Chwyddiant Banc Lloegr, gan ddefnyddio'r CPI, yn nodi y byddai nwyddau a gwasanaethau a oedd yn costio £100 yn 2020 yn costio £121.40 ym mis Hydref 2023. Felly er bod ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "gapio costau gofal cymdeithasol dibreswyl ar yr uchafswm cyfredol o £100 yr wythnos", mae'r pwysau economaidd presennol yn golygu bod yn rhaid inni nawr adolygu'r ymrwymiad hwn er mwyn taro'r cydbwysedd rhwng pwysau uniongyrchol ac atebion cynaliadwy hirdymor.

## Pennod 2 – Y rhesymeg dros newid

### Cefndir

Mae'r uchafswm ffi wythnosol yn sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran yr uchafswm ffi wythnosol y mae'n ofynnol i unigolyn ei dalu am ei ofal a'i gymorth amhreswyl. Mae pennu uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl yn mynd i'r afael â phroblem amrywiadau eang mewn ffioedd ledled Cymru a godwyd gan awdurdodau lleol yn flaenorol, drwy sefydlu sail tebyg am debyg. Mae ein cyfundrefn codi ffioedd yng Nghymru yn sicrhau bod unigolyn cymwys ond yn gorfod talu ffi am ei ofal a'i gymorth amhreswyl yn seiliedig ar ganlyniad ei asesiad ariannol, sy'n ystyried sefyllfa ariannol yr unigolyn er mwyn pennu'r ffi sy'n daladwy. Mae hyn yn sicrhau bod unigolyn ond yn talu'r hyn sy'n deg ac yn fforddiadwy iddo, ac ar hyn o bryd mae'r uchafswm ffi y gellir ei chodi ar unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth **amhreswyl** wedi'i gapio ar £100 yr wythnos.

Mae'r data mwyaf diweddar a mwyaf dibynadwy sydd ar gael (a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn 2019) yn dangos bod un o bob tri oedolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn talu'r uchafswm ffi wythnosol, sydd wedi'i bennu ar £100 ar hyn o bryd. Mae gweddill yr oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl naill ai'n cael gwasanaethau am ddim

neu am swm hyd at (ond heb gynnwys) yr uchafswm oherwydd lefel eu hincwm wythnosol a/neu'r gwasanaethau penodol sydd eu hangen.

Byddai ein newid arfaethedig yn sicrhau mai dim ond unigolion sydd â'r gallu ariannol i dalu uchafswm ffi wythnosol uwch a fyddai'n gwneud hynny. Byddai hyn yn cael ei bennu gan y broses arferol, fel rhan o'r prawf modd a gynhelir gan Awdurdod Lleol unigolyn. Felly, ni fyddai'n ofynnol i bawb sy'n talu'r uchafswm ffi wythnosol o £100 ar hyn o bryd dalu swm uwch.

Mae'r Cod a'r rheoliadau rhagnodedig, hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu'r hyn a elwir yn 'isafswm incwm' i unigolion wrth bennu'r ffi sy'n daladwy am eu gofal a'u cymorth amhreswyl. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r swm a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn lleihau incwm wythnosol net yr unigolyn islaw'r isafswm incwm penodedig, sy'n diogelu unigolion ymhellach. Mae'r Cod yn nodi:

> "gan y bydd angen i berson sy'n derbyn gofal a chymorth y tu allan i gartref gofal dalu am ei gostau byw bob dydd megis rhent, bwyd a chyfleustodau, mae'r fframwaith codi ffi yn ceisio sicrhau bod ganddo ddigon o arian i dalu am y costau hyn. O ganlyniad, ar ôl codi ffi **rhaid** i awdurdodau lleol adael isafswm incwm i berson."

**Pam rydym yn cynnig y dylid cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol?**

Oherwydd y pwysau economaidd parhaus presennol sy'n ymwneud â chynydd chwyddiannol, mae awdurdodau lleol o dan bwysau cynyddol i ateb y galw am wasanaethau gofal a chymorth a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau hynny. Nid yw hyn yn unigryw i Gymru ac mae'n her sy'n wynebu pob rhan o'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol yn y DU.

Drwy gadw'r cap presennol o £100 ar gyfer yr uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl, caiff cyfran yr incwm trethadwy y gall awdurdod lleol ei gael yn erbyn costau gwirioneddol darparu gofal ei lleihau, gan gynyddu'r baich ariannol. Mae Cyfrifiannell Chwyddiant Banc Lloegr, gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) i roi amcangyfrif o werth cymharol nwyddau a gwasanaethau, yn nodi y byddai nwyddau a gwasanaethau a oedd yn costio £100 yn 2020 yn costio £121.40 ym mis Hydref 2023.

Fodd bynnag, oherwydd newidynnau'r cynllun codi ffioedd a'r metrigau sydd ar gael, mae'n anodd nodi'n bendant pa bwysau sy'n gysylltiedig yn benodol â chadw'r uchafswm ffi wythnosol a pha bwysau sy'n bwysau galw ehangach sydd wedi'u dwysáu drwy gapio'r uchafswm ffi wythnosol, i bob pwrpas, ar y gyfradd bresennol o £100 yr wythnos, ers 2020.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch y pwysau ariannol parhaus y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu, sydd i'w priodoli'n rhannol i'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion ac effaith y pwysau economaidd presennol sy'n deillio o gynnydd

chwyddiannol. Felly, setliad drafft Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25 yw £5.688bn, sef cynnydd o 3.1%. Mae hyn yn adeiladu ar gynnydd blaenorol yn setliad Llywodraeth Leol; bu cynnydd o 7.9% yn y setliad ar gyfer 2023-24, yn dilyn cynnydd o 9.4% y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i ystyried cyfleoedd ac ysgogiadau, drwy gydweithio ac ymgynghori, er mwyn mynd i'r afael â phwysau ar wasanaethau, gan sicrhau cydbwysedd rhwng heriau uniongyrchol ac atebion cynaliadwy hirdymor.

O ystyried yr uchod, rydym yn ymgynghori ar gynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25 er mwyn cyfrif am y cyfraddau chwyddiant uwch rydym yn eu hwynebu fel rhan o'r argyfwng costau byw parhaus ledled y DU, a sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i gynnal y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir ganddynt, ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw gynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol fod yn deg ac yn fforddiadwy i bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, sy'n dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

Mae amcangyfrifon dros dro, sy'n seiliedig ar ddata o 2021-22[1], yn nodi bod y manteision cyllido i awdurdodau lleol yn cyfateb i lai na £7.2m y flwyddyn ar gyfer cynnydd o £15; tua £9.6m yn seiliedig ar gynnydd wythnosol o £20 ac incwm gwerth tua £12m yn seiliedig ar gynnydd o £25 yr wythnos. Dim ond amcangyfrifon dros dro yw'r rhain, sy'n seiliedig ar yr effaith bosibl os asesir na all pobl dalu'r ffi uwch neu os bydd cost eu gofal yn gostwng islaw'r uchafswm newydd. Ni fydd cwmpas llawn y maneision cyllido yn cael eu gwireddu hyd nes y bydd unrhyw newid yn cael ei weithredu.

## Pennod 3 – Pa newid sy'n cael ei gynnig gennym?

### Rheoliadau Diwygio

Rydym yn cynnig y dylid diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (y “Rheoliadau Gosod Ffioedd") (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) a Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiadau Amrywiol) 2020 (“Rheoliadau 2020”)). Y rheoliadau penodol rydym yn ymgynghori arnynt yw rheoliadau 7(1) a 22(1) o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd, fel y'u diwygiwyd gan reoliadau 2(a) ac (c) o Reoliadau 2020. Bydd y diwygiad hwn yn rhoi'r newid sy'n cael ei gynnig ar waith drwy ddileu'r ffigur presennol ar gyfer yr uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl a rhoi ffigur uwch penodedig yn ei le.

### Y Cod

Ym mharagraff 5.1 o'r Cod a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023, cyfeirir at reoliadau diwygio sydd wedi dod i rym ers i'r prif Reoliadau Gosod Ffioedd gael eu cyflwyno. Er eglurder, rydym yn cynnig y dylid diweddaru paragraff 5.1 o'r Cod er mwyn cyfeirio at y rheoliadau diwygio rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn 2024. Ceir

[1] Oedolion y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl awdurdod lleol a mesur (llyw.cymru)

fersiwn ddrafft o'r Cod diwygiedig arfaethedig yn Atodiad 1. Mae unrhyw ddiwygiad i'r Cod yn dibynnu ar reoliadau diwygio yn cael eu gwneud yn 2024, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Mae unrhyw ffi a godir ar oedolyn am ei ofal a'i gymorth amhreswyl yn seiliedig ar gost y gofal y mae'n ei gael a'i allu ariannol i dalu'r ffi honno. Ar hyn o bryd, ni all y ffi hon fod yn fwy na £100 yr wythnos am yr holl ofal a chymorth amhreswyl y mae unigolyn yn eu cael. Nid ydym yn cynnig y dylid newid yr asesiad ariannol a bydd incwm unigolyn yn parhau i gael ei ddiogelu gan y rheoliadau ynglŷn ag asesiadau ariannol. Mae'r newid ond yn ymwneud â'r uchafswm y gellid ei godi ar unigolyn sy'n cael gofal a chymorth amhreswyl, pan asesir ei fod yn deg ac yn fforddiadwy iddo.

**Y cynnydd arfaethedig i'r swm**

Bwriad Llywodraeth Cymru yw adolygu'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl.

Drwy gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol y gall awdurdodau lleol ei godi ar oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, byddai incwm ychwanegol yn cael ei gynhyrchu i awdurdodau lleol. Er ein bod o'r farn y byddai £120 yn swm priodol i'w gynnig ar gyfer uchafswm ffi wythnosol newydd, rydym yn cyflwyno opsiynau ychwanegol sy'n llai ac yn fwy na'r ffigur hwn er mwyn hwyluso'r hyn sy'n debygol o fod yn amrywiaeth eang o ymatebion a safbwyntiau.

| | **Opsiwn A** | **Opsiwn B** | **Opsiwn C** |
|---|---|---|---|
| **Y cynnydd arfaethedig i'r swm** | Cynnydd o £15 i £115 yr wythnos | Cynnydd o £20 i £120 yr wythnos | Cynnydd o £25 i £125 yr wythnos |

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau'r cydbwysedd cywir, wrth bennu'r swm y dylid cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl, rhwng codi incwm ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddelio â phwysau cynyddol o ran costau a sicrhau bod yr uchafswm ffi wythnosol yn deg ac yn fforddiadwy i bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Rydym wedi cynnig y cynyddrannau hyn yn unol â'r codiadau o £5 mewn blynyddoedd blaenorol, gan nodi nad oes unrhyw newid wedi'i wneud ers 2020.

## Pennod 4 – Sut mae hyn yn ymwneud â'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol, 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru'?

Roedd y Cytundeb Cydweithio, a lofnodwyd gan Blaid Lafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys ymrwymiad i 'sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein nod ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen'. Sefydlwyd y Grŵp Arbenigol hwn wedi hynny a lluniodd adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 a oedd yn nodi'r elfennau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer creu Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol. Ym mis Rhagfyr 2023,

cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu cychwynnol, '[Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol]'.

Er bod cynyddu'r cap ar yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl yn wyriad cychwynnol oddi wrth y weledigaeth i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol 'am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen', byddai'r refeniw ychwanegol y byddai hyn yn ei godi i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn sicrhau y gallwn gynnal ein hymrwymiad i newid cynaliadwy hirdymor.

Mae ein cynlluniau ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cydnabod gwerth gofal cymdeithasol yng Nghymru a phwysigrwydd cael system gofal cymdeithasol fywiog a ffyniannus; system sy'n darparu gofal o ansawdd ardderchog, sy'n cefnogi gwaith deniadol sy'n rhoi boddhad ac sydd wedi'i integreiddio'n agos â'r GIG a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae angen i gynlluniau dynamig ac uchelgeisiol megis y rhain fodoli yng nghyd-destun ateb cyllido cynaliadwy sy'n cefnogi'r sector ac yn ei alluogi i ffynnu. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru, gan sicrhau cydbwysedd hefyd rhwng pwysau uniongyrchol ac atebion cynaliadwy hirdymor.

## Pennod 5 – Asesiadau Effaith

### Crynodeb o'r cynnig

Mae Asesiad Effaith Integredig yn cael ei baratoi i ymdrin â'r cynnig sydd wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad hwn. Diben yr asesiad yw galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried, mewn ffordd strwythuredig, effaith y polisi a'r camau gweithredu arfaethedig ar bobl Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn dal i gael ei ddatblygu am fod y cynnig y mae'n ymdrin ag ef yn dal i fod ar ffurf ddrafft ac yn destun ymgynghoriad, sy'n golygu y gallai gael ei ddiwygio ymhellach.  Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder a cheisio adborth allanol, mae adrannau 1, 3, 4 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig wedi'u cynnwys ar ffurf ddrafft ichi eu hystyried yn Atodiad 2.

Mae adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig yn disgrifio'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham, gan gynnwys heriau a chyfleoedd posibl. Er y bydd adrannau penodol o'r Asesiad Effaith Integredig yn ystyried yr effeithiau posibl ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn fanwl, diben yr adran hon yw crynhoi effeithiau elfennau allweddol y cynnig.

Mae adran 3 o'r Asesiad Effaith Integredig yn disgrifio effaith cynigion ar lesiant diwylliannol a'r Gymraeg. At ddibenion asesiadau ariannol a chodi ffioedd, mae a wnelo'r fframwaith a nodir yn y Cod a'r Rheoliadau ag anghenion gofal a chymorth unigol person, cost y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno a sefyllfa ariannol y sawl sy'n cael y gofal. Os na fydd gan unigolyn lawer o arian, byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei asesiad er mwyn lleihau unrhyw ffi a gâi ei chodi arno yn unol â hynny. Ni ddylai hyn effeithio ar lesiant diwylliannol. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn gymwys i bawb yng Nghymru y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y

mae angen cymorth arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai unrhyw unigolion sy'n cael asesiad ariannol gan awdurdod lleol ar gyfer ffi allu cael yr asesiad hwnnw yn Gymraeg os byddant yn dymuno.

Mae adran 4 o'r Asesiad Effaith Integredig yn disgrifio effaith economaidd y cynnig ar fusnesau, y cyhoedd ac unigolion. Gan nad oes unrhyw swm penodol wedi cael ei gynnig na'i benderfynu ar gyfer yr uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl, ar hyn o bryd mae'r adran hon yn cyfeirio at effeithiau cyffredinol unrhyw gynnydd ar lesiant economaidd a bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i ddatblygu'r broses o asesu effeithiau ymhellach.

Adran 8 o'r Asesiad Effaith Integredig yw'r adran olaf, y bwriedir iddi grynhoi prif effeithiau'r cynnig.  Am fod yr Asesiad Effaith Integredig cyffredinol yn dal i gael ei ddatblygu, ni ddylid ystyried bod y casgliadau hyn yn derfynol ond yn hytrach eu bod yn rhoi crynodeb dangosol o'r effeithiau yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol hefyd wedi'i gwblhau. Bwriedir i Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r Senedd a rhanddeiliaid allu craffu ar benderfyniadau yn effeithiol. Ar hyn o bryd, asesiad ansoddol yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn sy'n nodi grwpiau allweddol o bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, sef, yn yr achos hwn, awdurdodau lleol ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r gwaith o ddadansoddi'r effeithiau ymhellach a byddant yn helpu i gasglu sail dystiolaeth ehangach.

Mae Atodiad 3 yn amlinellu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

## Adran 6 – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Mae'r bennod hon yn cynnwys y gyfres gyfan o gwestiynau mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Gall ymatebion ateb pob cwestiwn neu gwestiynau penodol.

Mae a wnelo'r gyfres gyntaf o gwestiynau â'r newid arfaethedig i'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl, yna ceir rhai cwestiynau am effaith a chanlyniadau ac mae'r cwestiwn olaf yn gwestiwn agored sy'n rhoi cyfle ichi ychwanegu unrhyw sylwadau ar faterion nad ymdriniwyd â nhw yn benodol yn y cwestiynau blaenorol.

Dylech gyflwyno eich sylwadau erbyn 13 Mai 2024, drwy un o'r ffyrdd isod:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb, a'i hanfon drwy e-bost i: dyfodolgofalcymdeithasol@llyw.cymru
- lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen ymateb, a'i hanfon drwy'r post i:

  Y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth
  Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
  Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

**Newid arfaethedig i'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl**

**Cwestiwn 1.1:** Cynigir y cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 er mwyn cyfrif am y cyfraddau chwyddiant uwch a welir ledled y DU a thu hwnt, a sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i gynnal y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir ganddynt, ac ansawdd y gwasanaethau hynny.

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am ofal amhreswyl yn cydbwyso'r angen i helpu i godi incwm ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn delio â phwysau ychwanegol o ran costau â bod yn deg ac yn fforddiadwy i bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl?

☐ Cytuno'n gryf
☐ Cytuno
☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
☐ Anghytuno
☐ Anghytuno'n gryf

**Cwestiwn 1.2:** Hoffem wybod eich barn ar y swm priodol y dylid cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl. Ar hyn o bryd mae'r swm wedi'i bennu ar £100 yr wythnos.

Pa swm, os o gwbl, y byddech yn cynyddu'r uchafswm ffi wythnosol fesul unigolyn sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth amhreswyl?

☐ cynnydd o £15
☐ cynnydd o £20
☐ cynnydd o £25

Esboniwch pam mae'r swm yn briodol, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 1.3:** Hoffem wybod eich barn ar y newid arfaethedig i'r cod ymarfer ar godi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol.

Er eglurder, rydym yn cynnig y dylid diweddaru paragraff 5.1 o'r Cod er mwyn cyfeirio at y rheoliadau diwygio rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith yn 2024. Mae unrhyw ddiwygiad i'r Cod yn dibynnu ar reoliadau diwygio yn cael eu gwneud yn 2024, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Nodwch p'un a ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid arfaethedig i'r Cod a rhowch y rheswm dros eich ateb.

☐ Cytuno'n gryf
☐ Cytuno
☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
☐ Anghytuno
☐ Anghytuno'n gryf

Rheswm:

**Effaith a chanlyniadau**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dal i gael eu datblygu am fod y cynnig y maent yn ymdrin ag ef yn dal i fod ar ffurf ddrafft ac yn destun ymgynghoriad, sy'n golygu y gallai gael ei ddiwygio ymhellach.

**Cwestiwn 2.1:** Hoffem wybod eich barn ar Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Cwestiwn 2.2:** Hoffem wybod eich barn ar Adran 4 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Cwestiwn 2.3:** Hoffem wybod eich barn ar Adran 8 o'r Asesiad Effaith Integredig. A oes unrhyw feysydd penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

**Cwestiwn 2.4:** Hoffem wybod eich barn ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol. A oes unrhyw gostau a/neu fanteision penodol y mae angen manylu ymhellach arnynt, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr hoffech dynnu sylw atynt a allai effeithio ar grŵp penodol?

Mae a wnelo'r cwestiynau isod yn benodol â'r Gymraeg.

**Cwestiwn 2.5:** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y cynnydd arfaethedig yn yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 2.6:** Yn eich barn chi, a allai'r cynnydd arfaethedig yn yr uchafswm ffi wythnosol am wasanaethau gofal a chymorth amhreswyl i oedolion gael ei lunio neu ei newid er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Cwestiwn penagored**

**Cwestiwn 3.1:** Diolch am roi o'ch amser i ateb ein cwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y cynnig, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.